



Cylchlythyr Cysylltu Cymunedau yng Nghymru

Rhifyn 3 | Rhagfyr 2019

Croeso i rifyn mis Rhagfyr 2019 o Gylchlythyr Cysylltu Cymunedau yng Nghymru

Croeso i drydydd rhifyn cylchlythyr Cysylltu Cymunedau yng Nghymru. Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, rydym yn dod at ddiwedd Cyfnod 2 prysur iawn y prosiect a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Godi Ymwybyddiaeth o Cysylltu Cymunedau yng Nghymru.
- Sefydlu rhwydwaith o Rwydweithiau Arloesi Cludiant ledled Cymru.
- Datblygu meini prawf adrodd a gwerthuso cadarn ar gyfer prosiectau.
- Hwyluso Ceisiadau Cyllido gan gyrrff cludiant cymunedol i Ffrydiau Cyllid priodol, gan gynnwys Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio.
- Symud i'n swyddfa newydd yng Nghastell-nedd.

Ar ran pawb yn Nhîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru a'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol, hoffem ddymuno Nadolig Llawen a 2020 diogel a llewyrchus i'n holl bartneriaid.



Y diweddaraf gan y tîm

Alison Owen, Rheolwr Prosiect

alison@ctauk.org



“Hoffwn ddechrau trwy ganmol Tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru am yr ymrwymiad a’r ymroddiad y maen nhw wedi’u dangos wrth ddatblygu syniadau, creu partneriaethau a chynorthwyo gyda cheisiadau cyllido. Da iawn a diolch enfawr am eich holl ymdrechion a’ch gwaith caled!

Rwyf hefyd eisiau crynhoi rhai o’r pethau rhyfeddol sydd wedi’u cyflawni, gan helpu darparwyr cludiant cymunedol i gynyddu eu capasiti a datblygu gwasanaethau gwerthfawr ymhellach mewn Cymunedau ledled Cymru. Bu Michelle a David yn cefnogi Sefydliadau wrth iddynt gyflwyno 24 o Geisiadau yn ystod 2018; llwyddodd 13 o’r rhain i gael gwerth bron i £514,000 o gyllid.

Rydym wedi gwneud hyd yn oed yn well yn 2019, gyda 29 cais wedi’u cyflwyno hyd yma; mae 5 wedi llwyddo gan ennill gwerth dros £191,000 ac rydym yn dal i aros am ganlyniadau 17 arall. Yn ogystal â hyn mae 20 cais arall ar wahanol gamau a disgwylir i’r rhain gael eu cyflwyno dros y misoedd nesaf. Rwy’n falch o ddweud bod yr arian wedi cyllido Gweithgareddau Craidd, Cyflogi Swyddogion Datblygu, Prynu Cerbydau a galluogi unigolion sy’n ynysig mewn ardaloedd gwledig i gyrraedd gwasanaethau gan gynnwys gofal iechyd a gwaith.

Yn ogystal â’r uchod, rydym hefyd wedi cefnogi sefydliadau trwy ein Rhaglen Hyfforddi Gyrwyr. Siaradwch â’n Swyddog Gweithredol Cefnogi Prosiect, John Evans ynglŷn â hyn; byddem wrth ein bodd yn cynorthwyo staff a gwirfoddolwyr i ennill eu cymhwyster MiDAS.

Ym mis Medi, fe wnaethon ni hwyluso Peilot Hyfforddi, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Alzheimer a gyflwynodd “Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Dementia i Staff sy’n gweithio mewn Gwasanaethau Cludiant”. Digwyddiad Rhaeadru undydd i “Hyfforddi’r Hyfforddwr” oedd hwn er mwyn cynorthwyo Aelodau sydd bellach yn gallu Hyfforddi eu Staff a Gwirfoddolwyr eu hunain.

Ein bwriad yw hwyluso Diwrnodau Hyfforddi pellach ledled Cymru; cysylltwch â John i gofrestru’ch diddordeb. Mae’n ddyddiau cynnar ar Raglen Hyfforddwy D1; rydym yn gobeithio cael ein “Digwyddiadau Hyfforddi D1” Cyntaf yn y Flwyddyn Newydd.

Mewn newyddion eraill, enwebwyd tîm CTA yng Nghymru, ynghyd â rhai o ddarparwyr cludiant cymunedol Cymru, am nifer o wobrau yng Ngwobrau Trafnidiaeth Cymru ym mis Tachwedd! Roedd noson y Gwobrau yn gyfle gwych i ddangos pwysigrwydd darpariaeth cludiant hygyrch a chynhwysol ledled Cymru.



Fe wnaeth y tîm a nifer o'n haelodau yn ardderchog i fod ar y rhestr fer ar gyfer tair gwobr wahanol

- **Gyrrwr y Flwyddyn** Eve Carter - Ffrindiau Cerrig Friends
- **Gwasanaeth i'r Diwydiant Trafnidiaeth** CTA | Accessible Caring Transport (ACT)
- **Merched mewn Trafnidiaeth** Christine Boston, Cyfarwyddwr Cymru ac Arweinydd y DU ar gyfer Ymgyrchoedd Ymchwil a Pholisi, CTA.

Roeddem yn falch iawn bod Glyn ac Eve o Ffrindiau Cerrig wedi gallu bod gyda ni yn y gwobrau, yn ogystal ag Ellen a Pauline o ACT. Hoffem hefyd ddweud diolch yn fawr iawn i Anneessa Mahmood, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Aelodau newydd CTA, am deithio i Gaerdydd ar gyfer y Gwobrau - roedd yn gyfle gwych i ni i gyd ddod at ein gilydd a dod i adnabod rhai o'n haelodau hyfryd!”



David Brooks, Cydlynnydd Prosiect De Cymru

david@ctauk.org



“Ar ôl gweithio i CTA am nifer o flynyddoedd, rwyf wedi bod yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r prosiect ymhlith sefydliadau cludiant cymunedol yn fy ardal, gan annog partneriaethau â sefydliadau eraill y mae eu cleientiaid yn dibynnu ar Gludiant Cymunedol. O ganlyniad, mae nifer o brosiectau wedi datblygu a cheisiadau am gyllid wedi'u gwneud, gan gynnwys:

- Trwy weithio mewn partneriaeth â thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru, mae **cludiant cymunedol Dolen Teifi** wedi llwyddo i sicrhau £80,000 dros ddwy flynedd o Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Bydd yr arian yn galluogi Dolen Teifi i sefydlu cynllun ceir trydan cymunedol ar gyfer unigolion, teuluoedd a grwpiau bach sydd angen cyrraedd gwasanaethau a chyfleoedd hanfodol, yn ardal Brechfa (Sir Gaerfyrddin)a'r cyffiniau. Bydd y cynllun sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn darparu siwrneiau pwrpasol i gyrchfannau gan gynnwys ysbytai lleol, meddygfeydd, yn ogystal ag apwyntiadau cymdeithasol, gan ddefnyddio cronfa leol o yrwyr gwirfoddol. Bydd y cyllid yn darparu MPV trydan a chostau staff a rhagwelir y bydd y prosiect yn cychwyn yn ystod yr hydref 2019.
- Trwy weithio mewn partneriaeth â **Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau (tîm Cymunedau am Waith) a Chludiant Cymunedol Village and Valleys**, mae tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru wedi sefydlu peilot cludiant i'r gwaith newydd wedi'i leoli yn y Rhondda Fach. Ym mis Mai 2019, dechreuodd peilot blwyddyn O'r Cymoedd i'r Gwaith ddarparu gwasanaeth bws mini dyddiol a gynlluniwyd yn benodol i helpu ceiswyr gwaith i deithio allan o'u hardal arferol i gael



mynediad at gyfleoedd cyflogaeth. Bydd y gwasanaeth pwrpasol hwn hefyd yn gweithredu ar adegau sy'n llawer mwy addas ar gyfer y patrymau gwaith shifft sy'n ofynnol gan rhai cyflogwyr, ac a fyddai fel arall yn amhosibl yn seiliedig ar amserlenni gweithredwyr bysiau cyhoeddus presennol yr ardal. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ymchwilio i'r posibilrwydd o efelychu'r peilot mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a'r DU.

- Trwy weithio mewn partneriaeth â **Hay Dial a Ride**, mae tîm Cysylltu Cymunedau wedi cynorthwyo'r sefydliad yn Y Gelli i wneud cais am arian i ddarparu'r gwasanaeth 'Bws Banc'. Bydd y cynllun unigryw, a dderbyniodd arian trwy raglen 'Gwobrau i Bawb' y Loteri Fawr, yn cynorthwyo pobl i deithio o'r Gelli i Aberhonddu er mwyn cael mynediad at gyfleusterau bancio dros y cownter a gwasanaethau eraill nad ydynt bellach ar gael yn eu cymuned leol.

Mae'r cyllid yn golygu bod y gwasanaeth yn rhad ac am ddim i deithwyr, ac yn ogystal â chyrraedd gwasanaethau bancio a gwasanaethau hanfodol eraill, gall aelodau Hay Dial a Ride hefyd fwynhau cwmni ei gilydd, gan helpu i leihau unigrwydd ac arwahanrwydd ac adeiladu cyfeillgarwch. Yn ddiweddar, mae'r tîm hefyd wedi cynorthwyo Hay Dial a Ride i gyflwyno cais am gostau craidd i Sefydliad Garfield Weston ac maent yn aros am benderfyniad am y cyllido.

Mae tîm Cysylltu Cymunedau wedi cefnogi **Canolfan Gymuned Ystradowen** yn ddiweddar i gyflwyno cais am gyllid i Gronfa Gymunedol y Loteri Fawr i helpu i ymestyn y clwb cinio presennol a'r cludiant cymunedol cysylltiedig.

Os bydd yn llwyddiannus, bydd y cyllid yn galluogi Ystradowen i ddarparu mwy o gyfleoedd cludiant hygyrch i bobl sy'n byw mewn cymunedau lleol cyfagos - gan wella eu gallu i ddod i'r clwb cinio a gweithgareddau eraill sy'n digwydd yng Nghanolfan Ystradowen.

Mae'r tîm hefyd wedi cefnogi **Cludiant Cymunedol Castell-nedd Port Talbot** i gyflwyno cais am gyllid i gronfa Gwobrau i Bawb y Loteri Fawr er mwyn gallu estyn gwasanaeth 'Townrider Castell-nedd' i alluogi pobl sy'n byw yng nghymunedau Birchgrove, Glais a Lon Las i barhau i gael cludiant i gyrraedd Canol Tref Castell-nedd wedi i lwybr gwasanaeth bws cyhoeddus lleol gael ei ddileu.

Os bydd yn llwyddiannus, bydd yr ymyrraeth hon yn llenwi bwlch hollbwysig yn y rhwydwaith cludiant ac yn sicrhau bod pobl yn dal i allu cyrraedd gwasanaethau hanfodol a chyfleoedd cymdeithasol.

Mae gwaith datblygu prosiectau gan gynnwys adeiladu partneriaethau ac ysgrifennu ceisiadau hefyd yn digwydd yn Ystradgynlais, Dyffryn Aman Uchaf ac yng Nghymoedd Rhondda ac rydym yn disgwyl gweld prosiectau cyffrous yn cael eu datblygu yn yr ardaloedd hyn dros yr ychydig fisoedd nesaf!"



Michelle Clarke, Cydlynnydd Prosiect Gogledd Cymru

michelle@ctauk.org



Gan fy mod i'n gweithio yng Ngogledd Cymru, mae cludiant yn bwnc trafod allweddol ble bynnag yr af, ac mae'n galonogol gweld y gwaith gwych y mae cynlluniau cludiant cymunedol yn ei wneud bob dydd. Mae bylchau amlwg yn y ddarpariaeth, fodd bynnag, ac mae angen cludiant cymunedol hygyrch a fforddiadwy ar lawer o gymunedau gwledig i helpu preswylwyr i allu cyrraedd cyfleoedd cyflogaeth, gweithgareddau hamdden a lles, mynychu apwyntiadau meddygol, a gwneud y siopa wythnosol yn yr archfarchnad.

Yn fy rôl i felly, rwy'n gweithio gyda grwpiau a sefydliadau i ddatblygu gwasanaethau newydd. Dyma rai o uchafbwyntiau'r misoedd diwethaf:

- Cyfarfod â'r Cydlynnydd newydd ar gyfer **Cynllun Car Cymunedol Conwy Wledig** a reolir gan **Wasanaethau Cymunedol a Gwirfoddol Conwy**. Sicrhawyd cyllid o £150,000 ar gyfer y swydd newydd hon a'r car cymunedol newydd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn trwy'r Loteri a Sefydliad Steven Morgan. Bydd y car yn helpu pobl i fynychu apwyntiadau iechyd a gweithgareddau lles.
- Cymryd rhan mewn digwyddiad **Cludiant Cynaliadwy** gydag **AVOW ac Adfywio Cymru** yng Nghanolfan Splash Plas Madoc yn **Wrecsam** i drafod cludiant gan fod preswylwyr wedi dweud ei bod yn anodd cyrraedd safleoedd cyflogaeth lleol neu fynd i weithgareddau oherwydd diffyg perchnogaeth ceir preifat a chyfyngiadau trafndiaeth gyhoeddus. Mae cyfarfod wedi'i drefnu fel dilyniant i'r digwyddiad i gytuno ar flaenoriaethau a datblygu cynllun gweithredu.
- Wedi cadeirio cyfarfodydd **Partneriaeth Cludiant Cymunedol Abergynolwyn a Thywyn** dros gyfnod o fisoedd, gyda grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid yn cyfrannu'r frwd, mae'n newyddion gwych y bydd y grŵp lleol Egni Abergynolwyn yn gartref i gar cymunedol trydan am 12 mis. Mae'r peilot hwn yn rhoi cyfle i gasglu tystiolaeth o'r angen ar gyfer ceisiadau cyllido yn y dyfodol.
- Cynorthwyo **Cyngor Cymuned Harlech** i ganfod cyllid i gynnal **Gwasanaeth Bws Hoppa Harlech** sy'n cysylltu rhannau isaf ac uchaf y dref am gyfnod cyfyngedig dros yr haf. Mae rhai o strydoedd mwyaf serth Cymru yn yr ardal ac mae'r ganolfan iechyd yn rhan isaf y dref, a'r fferyllfa ar y llaw arall yn y rhan uchaf, ynghyd â gwasanaethau a chyfleusterau eraill, fel y ganolfan hamdden. Sicrhawyd grant bach o £8,200 ac mae opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer datblygu'r cynllun yn y tymor hwy.
- Gweithio ochr yn ochr â **Phartneriaeth Ogwen ym Methesda a Chyfeillion y Ddaear** i ddatblygu syniadau a Mynegiant o Ddiddordeb ar gyfer cais cyllido mawr i'r Loteri Wledig, yn seiliedig ar brosiect 'Dyffryn Gwyrdd' sydd â chludiant cymunedol trydan yn elfen allweddol o'r prosiect arfaethedig. Mae Partneriaeth Ogwen wedi sefydlu Grŵp Partneriaeth rhagweithiol a fydd yn



gweithio gyda'i gilydd i ganfod ffynonellau cyllid eraill a datblygu meysydd gwaith ychwanegol, sy'n ategu ei gilydd.

- Gweithio gydag **O Ddrws i Ddrws yn Nefyn** i ystyried ceisiadau cyllido i gynorthwyo gyda chostau craidd a chostau prosiectau. Gwnaed cais am grant bach i ddechrau, a chysylltodd O Ddrws i Ddrws â ni i ddweud: 'Cawsom lythyr gan Sefydliad Garfield Weston y bore yma - roedd ein cais am gyllid yn llwyddiannus! Cawsom siec am £10,000 - dim rhagor o ffurflenni i'w llenwi. Yn y bôn, adroddiad diwedd blwyddyn yw'r monitro dilynol i ddweud sut y gwariwyd yr arian. Diolch eto.'

Cysylltwch â mi os hoffech drafod cludiant cymunedol yn eich ardal chi. Gellir cysylltu â mi dros y ffôn ar 01745 556751 (swyddfa) 07918 748260 (symudol), neu drwy e-bost michelle@ctauk.org."

John Evans, Swyddog Gweithredol Cefnogi Prosiect

johne@ctauk.org



"Rwyf wedi bod yn brysur yn datblygu a gweithredu prosesau a systemau i helpu'r tîm i gofnodi eu myrdd o ryngweithiadau â sefydliadau partner yn gywir a sicrhau bod pob Dangosydd Perfformiad Allweddol yn cael ei gofnodi gyda thystiolaeth gefnogol gadarn. Fe wnaethon ni gynnal rownd arall hefyd o Rwydweithiau Arloesi Cludiant - gweler isod. Rwyf wedi canolbwyntio yn ystod y flwyddyn ar helpu i adnabod anghenion hyfforddi a datblygu ein darparwyr cludiant cymunedol er mwyn hwyluso Cam 2 llwyddiannus i'r Prosiect.

Mae Alison eisoes wedi amlinellu rhywfaint o'r cymorth rydym wedi gallu ei ddarparu ar gyfer MiDAS a chefnogi gyrwyr. Yn ogystal, rydym wedi gweithio hefyd mewn partneriaeth â Busnes Cymdeithasol Cymru i ddarparu cefnogaeth fentora i nifer o sefydliadau cludiant cymunedol i helpu i strwythuro datblygiadau yn y dyfodol mewn tri maes allweddol: rheoli, llywodraethu a chadw cyfrifon cymdeithasol.

Mae Holiadur Llywodraethu ar gael a chaiff ei ddefnyddio i ddeall ble mae'r darparwyr cludiant cymunedol arni o ran y meysydd allweddol hyn a pha gefnogaeth sydd ei hangen er mwyn mynd i'r afael â meysydd datblygu. Siaradwch â mi os hoffech gael cefnogaeth o'r fath."



Rhwydweithiau Arloesi Cludiant

Rydym bellach wedi cynnal tair rownd o Rwydweithiau Arloesi Cludiant (RhAC) ledled Cymru. Daeth y digwyddiadau â bron i 300 o gynrychiolwyr ynghyd o'r sectorau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i drafod bylchau cludiant a chyfleoedd ar gyfer mentrau newydd a fydd yn sicrhau gwell cysylltiadau i bobl sydd wedi'u hynysu ledled Cymru. Roedd y digwyddiadau yn llwyddiant ysgubol gyda 93% o'r mynychwyr yn dweud eu bod o'r farn bod y sesiynau'n 'dda' neu'n 'rhagorol'.

Roedd y wybodaeth a gasglwyd o'r rowndiau cynharach o gymorth wrth lunio'r agenda ar gyfer y drydedd rownd lle:

- Rhoddodd Dolen Teifi drosolwg o sut mae Prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru wedi galluogi'r mudiad i sicrhau cyllid, hyfforddi gyrwyr a gweithio gyda Busnes Cymdeithasol Cymru i helpu'r Ymddiriedolwyr i strwythuro Dolen Teifi a datblygu Strategaeth Cynllunio Olyniaeth.
- Dangosodd Dr. Kate Hamilton, Cyfarwyddwr Rhaglen Adfywio Cymru sut mae darparwyr cludiant cymunedol yn cofleidio'r agenda Werdd a'r partneriaethau a'r prosiectau cadarnhaol sy'n cael eu datblygu.
- Esboniodd Mike Entwisle o PAVO hyfforddiant D1 & MiDAS a sut y gallai darparwyr cludiant cymunedol wneud cais am gyllid gan Brosiect Cysylltu Cymunedau. Hyd yma mae 45 o unigolion wedi ymrwymo i gael hyfforddiant D1 yng Nghymru ac mae 197 wedi ymrwymo i wneud MIDAS.

Ar gyfer 2020 rydym yn bwriadu adnewyddu strwythur y RhACau a byddem yn croesawu unrhyw awgrymiadau!

Agor Swyddfa Newydd De Cymru

Ym mis Gorffennaf, agorwyd ein swyddfa newydd yn Ne Cymru yng Nghastell-nedd! Mae gan y swyddfa, a leolir yn **119 Heol Llundain, Castell-nedd, SA11 1LF**, fwy o le, gan gynnwys ystafell gyfarfod at ddefnydd partneriaid, ac mae'n agos at gysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus gyda Gorsaf Reilffordd Castell-nedd ddim ond 10 munud o gerdded o'r swyddfa.

I ddathlu'r swyddfa newydd, rhoddwyd croeso i dros 30 o bartneriaid i Gastell-nedd ar gyfer ein hagoriad swyddogol! Roedd yn wych gweld cymaint o aelodau a phartneriaid yn ymgynnull am ginio a sgrysiâu gwych. Diolch i bawb o dîm Cymru a fu'n rhan o drefnu'r digwyddiad ac am fod mor groesawgar.



I rannu'ch straeon a chyfrannu at rifynnau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, cysylltwch â:

John Evans, Swyddog Gweithredol Cefnogi Prosiect ar johne@ctauk.org | 01792 844 290

